GRAS TU HWNT I'M DEALL I
[GRACE UNMEASURED]

PENNILL 1 **Gras tu hwn i'm deall i**
Yn rhad a helaeth er fy mai
Alwodd fi ers cyn i'm fod
I roi i Ti y mawl a'r clod
Gras rhyfeddol, dwfn a glân
Welodd ddyfnder f'angen i
Yn derbyn baich fy mhechod i
A'm gwisgo â'th gyfiawnder di

CORWS **Gras a dalodd y pris, i'm dwyn i yn fyw**
Gras fy ngwisgo â nerth a minnau yn wan
Gras i'm tywys i'r nef, i weled dy wedd
A chanaf byth am gyfoeth mawr dy ras

PENNILL 2 **Gras mor rhadlon, Gras mor gryf**
Yn mynnu newid ynof fi
Dwyn fy malchder at dy draed
I garu'r groes, lle collaist waed.
Gras diddiwedd, hyd fy oes
Yn fy nghynnal â dy nerth
A phan fo'r dyddiau hyn ar ben
Bydd mawl i Ti tu hwnt i'r llen

Cyfieithwyd o "Grace Unmeasured". Music and words by Bob Kauflin. © 2005 Sovereign Grace Praise (BMI). Sovereign Grace Music, a division of Sovereign Grace Churches. All rights reserved. Administrated worldwide at www.CapitolCMGPublishing.com, excluding the UK which is adm. by Integrity Music, part of the David C Cook family. www.SovereignGraceMusic.org CCLI #4662862